Urdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Dadansoddydd Busnes** |
| **Math o gontract:** | **Swydd dros dro am ddwy flynedd yn gychwynnol. Llawn amser (35 awr yr wythnos)** |
| **Graddfa:** | **Graddfa 9: £33,067 (Pwynt 1) - £38,334 (Pwynt 6)** |
| **Lleoliad:** | **Un o ganolfannau'r Urdd (i'w trafod)** |

**Amdanom ni**

Mae'r Urdd yn fudiad sy'n parhau i dyfu ac arloesi, ac yn un o'r cyflogwyr mwyaf sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg. Fe'i sefydlwyd yn 1922, ac erbyn heddiw mae gan yr Urdd, dros 55,000 o aelodau, 10,000 o wirfoddolwyr. Cyflogir dros 300 o staff ac mae gan y Mudiad trosiant o dros £10m. Bydd yr Urdd yn dathlu ei chanmlwyddiant yn 2022 gan weithio gyda'n haelodau a'n gwirfoddolwyr ynghyd ag amryw o bartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, S4C, BBC, Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Stonewall Cymru, Chwaraeon Cymru, Ysgolion a Cholegau Cymru.

**Y Swydd**

Mae hwn yn amser cyffrous i ddod yn rhan o dîm yr Urdd, fel y cychwynnwn ar y daith o foderneiddio systemau data ar draws y mudiad. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn chwarae rôl allweddol i sicrhau trawsnewidiad digidol drwy ymgysylltiad hefo unigolion a thimau ar draws y mudiad. Bydd disgwyl iddynt allu cyfathrebu gwerth a buddion yn glir i'r rhan-deiliaid, boed hynny'n arwain at amcanion Cynllun Corfforaethol yr Urdd (2019 - 2022), yn ariannol, neu drwy welliannau effeithlonrwydd.

Bydd y dadansoddydd busnes yn rheoli'r ceisiadau am newidiadau a godir gan adrannau'r Urdd ar draws amrywiaeth o systemau, gan sicrhau bod y newidiadau mwyaf gwerthfawr yn cael eu blaenoriaethu yn unol â strategaeth y mudiad.

Bydd deiliad y swydd yn rhyngwyneb rhwng adrannau'r Urdd a TG gan sicrhau bod ceisiadau i ddatblygu neu ddyfeisio systemau newydd yn cyd-fynd â strategaeth ddata'r mudiad. Wedi cymeradwyo newidiadau, bydd angen gweithio efo'r adrannau i reoli'r broses o integreiddio, sicrhau bod yr hyfforddiant priodol mewn lle a bod cefnogaeth briodol ar gael lle bo angen.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Dafydd Lewis (Pennaeth TG) ar 02920 635688 neu dafyddlewis@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – 10:00 ar 2il Fedi 2019
Dyddiad Cyfweld – I'w cadarnhau

| DISGRIFIAD SWYDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Dadansoddydd Busnes TG** | **Lleoliad:** | **Un o swyddfeydd yr Urdd (i'w trafod)** |
| **Adran:** | **Technoleg Gwybodaeth** | **Rheolaeth Llinell:** | **-** |
| **Yn adrodd i :** | **Pennaeth yr adran TG** | **Graddfa:** | **Graddfa 9 (£33,067 pwynt 1 – 38,334 pwynt 6)** |

**Prif bwrpas y swydd:**

Bydd y dadansoddydd busnes yn chwarae rhan allweddol yn y broses o drawsnewidiad busnes a digidol ar draws yr Urdd. Yn dilyn penderfyniad i wneud buddsoddiad sylweddol yn ein systemau data, mae hwn yn gyfle gwych i unigolyn brwdfrydig ddylanwadu ym mhob agwedd o'r mudiad.

Mae disgwyl i'r deiliad fod yn rhyngwyneb rhwng adrannau'r Urdd a'r adran TG i sicrhau bod ceisiadau i ddatblygu neu ddyfeisio systemau newydd yn cyd-fynd â strategaeth ddata'r mudiad a gofynion strategol y mudiad. Wedi cymeradwyo newidiadau, bydd angen gweithio efo'r adrannau i reoli'r broses o'u cyflwyno, gan sicrhau bod hyfforddiant a chefnogaeth briodol mewn lle.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

- Gweithio ar yr un pryd ar brosiectau / newidiadau â gofynion lluosog.
- Deall a thrafod gofynion busnes newydd a phresennol ar draws nifer o rhan-ddeiliaid.
- Ymchwiliadau rhagweithiol i dechnoleg a all fod yn briodol i ddefnydd y mudiad.
- Cynorthwyo gyda dadansoddiad cychwynnol o geisiadau datblygu o wahanol faint a chymhlethdod, gan ddarparu argymhellion ar gyfer symud ymlaen fel hyfforddiant, neu newid proses ac/neu systemau.
- Cynorthwyo gyda dadansoddi gwerth a blaenoriaethu ceisiadau datblygu, asesu'r buddion i'r busnes ac ymdrin ag unrhyw newidiadau sy'n gwrthdaro.
- Cynorthwyo gyda chreu a diweddaru canllawiau pwrcasu systemau data neu unrhyw ddatblygiadau.
- Trosglwyddo gofynion systemau i ddatblygwyr allanol neu fewnol.
- Darparu mewnbwn i'r broses cymeradwyo datblygu neu bwrcasu.
- Cynorthwyo gyda phrofi wrth ddatblygu / integreiddio, gan sicrhau safonau ac ansawdd y gwaith.
- Gweithio gyda rhan-ddeiliaid yn ystod cyfnod profi systemau i sicrhau bod gofynion yn cael eu cyflawni fel y cytunwyd.
- Adnabod a rheoli problemau a risgiau posibl sy'n gysylltiedig â unrhyw newid.
- Gweithredu fel canolbwynt a darparu cefnogaeth a chymorth i'r holl bartïon perthnasol drwy unrhyw newidiadau.
- Darparu cefnogaeth gyffredinol i systemau data'r mudiad.
- Cynorthwyo gyda monitro ac adrodd ar y buddion ar ôl gweithredu.
- Mynychu a chyfrannu mewn cyfarfodydd tîm a fforymau eraill yn ôl y gofyn.
- Unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill

**Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

Bydd deiliad y swydd yn hunan cyfeiriedig, ymroddedig ac yn gallu deall cysyniadau ac egwyddorion newydd yn gyflym. Mae sgiliau cyfathrebu da yn hanfodol, gan fod y swydd yn cynnwys rhyngweithio efo rhan-ddeiliaid o bob lefel yn y busnes. Mae cofnodi'r gofynion busnes a'r manteision busnes yn glir yn hanfodol i sicrhau bod disgwyliadau rhan-ddeiliaid busnes yn cael eu bodloni. Bydd deiliad y swydd yn chwaraewr tîm, efo'r gallu i feddwl yn rhesymegol ac yn ddadansoddol.

Fel cysylltiad gweladwy iawn drwy'r mudiad, bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd gyflwyno agwedd gadarnhaol a rhagweithiol tuag at broblemau a gofynion yr holl rhan-ddeiliaid busnes.

**Hanfodol:**

- Profiad amlwg o ddadansoddi gofynion busnes a swyddogaethol (functional).
- Sgiliau datrys problemau yn greadigol.
- Sgiliau rhagorol yn rheoli rhan-ddeiliaid.
- Parod i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid.
- Sgiliau aml-dasg ardderchog.
- Yn gallu i flaenoriaethu gwaith.
- Y gallu i gysylltu datblygiadau technolegol gydag amcanion strategol.

**Dymunol:**

- Gradd berthnasol
- Profiad o greu achosion busnes.
- Gwybodaeth am ddeddfwriaeth data cyfredol megis GDPR.
- Dawn gref ar gyfer modelu prosesau busnes.
- Gwybodaeth ymarferol o arferion gweithio AGILE.
- Cymwysterau perthnasol dadansoddi busnes, megis cymwysterau BCS.
- Gwybodaeth am arferion gorau profi systemau a sicrhau ansawdd meddalwedd.
- Profiad o weithredu newid mewn sefydliad sydd yn darparu gwasanaethau amrywiol.
- Gwybodaeth o ddulliau dadansoddi data yn defnyddio cynnyrch tebyg i Power BI, Tableau neu Crystal Reports.

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

**Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad:**
Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mehefin 2019 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (**ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Dadansoddydd Busnes |
| **Yn atebol i:** | Pennaeth Technoleg Gwybodaeth |
| **Cyflog:** | Ar raddfa 9 Strwythur Cyflog yr Urdd £33,067 (Pwynt 1) - £38,334 (Pwynt 6) Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol. |
| **Cytundeb:** | Tymor cychwynnol penodol o 2 flynedd, gyda'r posibilrwydd o ymestyn y tymor yn y dyfodol. |
| **Oriau gwaith:** | Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg. |
| **Lleoliad:** | Caerdydd, Llangrannog neu Glan-llyn |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| **Gwiriad GDG:** | Nid yw'n berthnasol i'r swydd. |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| **Yswiriant Bywyd:** | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |